



**NETFLIX YNG
NGHYMRU**



Mae Netflix wedi bod yn y DU am ddeuddeg mlynedd, ac rydym yn falch o fod wedi gwneud cartref yma - dyma'n hail ganolfan gynhyrchu fwyaf yn fyd-eang ac rydym wedi buddsoddi dros \$6 biliwn i sector creadigol y DU ers 2020, gan gynnwys nifer cynyddol o gynyrchiadau yng Nghymru.

Mae'r cyfleoedd ar gyfer ffilm a theledu yng Nghymru'n ddiderfyn. Gan weithio ochr yn ochr â thalent greadigol leol, rydym wedi partneru â chwmnïau cynhyrchu ar deitlau gan gynnwys pedwar tymor o Sex Education a'n ffilm newydd HAVOC, sef y llun mawr mwyaf erioed yng Nghymru.



Mae'r cynyrchiadau hyn yn cynhyrchu buddion sylweddol i bobl greadigol, cymunedau a busnesau Cymru, ond maent hefyd yn darparu cyfle i arddangos diwylliant a thalent Cymru i'r byd.

CYFRANNODD DROS £200 MILIWN I ECONOMI'R DU

"O Sex Education i The Crown, a bellach HAVOC, ffilmwyd neu cynhyrchwyd rhai o'n hoff deitlau yng Nghymru. Mae Cymru, gyda'i chyfoeth o dalent greadigol anhygoel a thirweddau naturiol prydferth, yn le rhagorol i greu adloniant, felly rydym ni yn Netflix wrth ein bodd y gall ein cynyrchiadau Cymreig barhau i greu cyfleoedd diwylliannol ac economaidd parhaus."

Anna Mallett, Is-lywydd Cynhyrchu, DU, Netflix

Effaith economaidd

Yn ogystal ag arddangos y gorau o dalent greadigol a lleoliadau Cymru, mae'r cynyrchiadau hyn yn ysgogi buddion gwirioneddol i'r economi. Gan gynnwys HAVOC, mae ein cynyrchiadau yng Nghymru bellach wedi cyfrannu **dros £200 miliwn mewn GYC i economi'r DU**.

Nid y rhai sy'n gweithio ar y set yn unig sy'n teimlo'r hwb economaidd hwn. Mae cynhyrchu ffilm neu gyfres deledu fel arfer yn tynnu ar ystod eang o bersonél, sgiliau, gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith, felly teimlir yr effaith ar draws yr economi:



Y tu hwnt i wariant uniongyrchol, mae cynyrchiadau Netflix hefyd yn creu effaith lluosf, gan fod o fudd i fusnesau sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau i'r diwydiant.

Am bob £1 y mae Netflix yn ei wario yng Nghymru, cynhyrchir 80c ychwanegol o wariant ar draws y gadwyn gyflenwi.

**Am bob £1
mae Netflix
yn ei wario ar
gynyrchiadau
yng Nghymru:**

58c

yn cael ei wario yn y
sectorau ffilm a theledu

7c

yn cael ei wario ar
rentu a phrydlesu

5c

yn cael ei wario yn
y sector creadigol a
chelfyddydau ehangach

3c

yn cael ei wario ar
fwyd a lletygarwch

27c

yn cael ei wario ar
draws sectorau eraill
yr economi

"Mae'r adroddiad hwn yn dangos cymaint o effaith y gall gwasanaethau ffrydio mawr, megis Netflix, ei chael wrth fuddsoddi yng nghenedloedd a rhanbarthau'r DU. Mae gan Cymru gymaint i'w gynnig o ran seilwaith o'r radd flaenaf, talent, lleoliadau ffilmio a chenedlaeth o bobl greadigol ifanc sy'n chwilio am eu cyfle yn y diwydiant.

Mae Cymru Greadigol yn falch o weithio'n agos â Netflix i helpu i ddod â chynyrchiadau mawr i Gymru. Mae'r cydweithrediad hwn yn creu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a gwariant sylweddol o fewn ein heconomi ac mae'n llwyfan fyd-eang i arddangos popeth rydym yn ei gynnig fel cenedl. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â Netflix am flynyddoedd i ddod i helpu Cymru i wireddu ei photensial llawn fel cyrchfan ffilmio ar gyfer cynyrchiadau lleol a rhyngwladol mawr."

Joedi Langley, Pennaeth Dros Dro Cymru Greadigol

"Rydym yn hynod falch o ddiwydiannau creadigol Cymru, sy'n cyflogi dros 35,000 o unigolion talentog, a'r seilwaith o'r radd flaenaf sydd gennym yn ei le ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu. Mae croesawu cynyrchiadau proffil uchel Netflix i Gymru wedi cyflwyno buddion sylweddol i'n heconomi a'n henw da, fel y dengys yr adroddiad hwn. Mae ein cefnogaeth o gynyrchiadau megis Sex Education a HAVOC, drwy Cymru Greadigol, wedi sicrhau cyfleoedd hyfforddiant pellach gwerthfawr i'r sector."

Jack Sargeant, Y Gweinidog Diwylliant

'Roedd gwneud ffilm fel HAVOC yng Nghymru yn syniad mor gyffrous. Mae wedi bod yn anhygoel gweld yr effaith y gall cynyrchiadau mor fawr ei chael ar fusnesau lleol wrth arddangos y dalent greadigol yma. Gobeithiaf y bydd yr hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'r ffilm hon yn cyfrannu at weld llawer mwy o wneuthurwyr ffilm yn parhau i ddewis Cymru fel y lle i adrodd eu stori.'

Gareth Evans, Cyfarwyddwr Havoc

RHAI O GYNRYCHIADAU NETFLIX YNG NGHYMURU



THE ONE

wedi'i ffilmio yn Y Sili, Abertawe, Casnewydd a Chaerdydd

SEX EDUCATION

Tyndyrn, Symonds Yat yn Nyffryn Gwy, Trefynwy a Llandogo

YOU VS WILD

Porthmadog

THE END OF THE F***ING WORLD SEASON 2

Tymor 2 - Bay Studios (Abertawe), Gorsaf Heddlu Canol Caerdydd, Adeilad Cyngor Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Penderyn

THE WITCHER

Trwyn yr As, Tredegar

LADY CHATTERLEY'S LOVER

Wrecsam

HAVOC

Caerdydd, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys Great Point Studios a Dragon Studios

THE CROWN

Aberystwyth, Castell Caernarfon

Cefnogi busnesau a thalent Cymru

Busnesau lleol

Mae buddsoddiad Netflix mewn cynyrchiadau Cymreig wedi creu cyfleoedd sylweddol i gyflenwyr lleol. Mae **bron i 500 busnes Cymreig**, o bob rhan o'r wlad, wedi elwa o gynhyrchu yng Nghymru, gan helpu i gynnal a thyfu busnesau mewn amryw sectorau.



Adam Charles, Prif Gogydd, The Healthy Hangout, Caerdydd 'Dw i wrth fy modd bod Netflix yn defnyddio cyflenwyr lleol ar gyfer y math hwn o beth. Fe wnaethon ni ddarparu prydau ar gyfer rhai o sêr y ffilm, a oedd yn wych. Yn amlwg mae'n dda iawn i'n busnes a'n mantolen, ond mae cymaint yn mynd i mewn i'n gwaith, felly mae ymdeimlad o falchder hefyd o wybod bod ein cynnyrch wedi chwarae rhan mewn cynhyrchiad mawr fel hwn.'

Cefnogi talent Gymreig leol

Yn aml gall y cynyrchiadau hyn ddarparu cyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i'r genhedlaeth nesaf o dalent hefyd. **Crëwyd dros 60 rôl hyfforddai a phrentisiaeth**, gyda llawer ohonynt yn dychwelyd fel rhan o'r criw llawn amser mewn cyfresi dilynol.

Yn ogystal â hyn, mae **Netflix a rhaglen 'IGNITE Your Creativity' National Youth Theatre** wedi helpu dros 350 o bobl ifanc mewn gweithdai yng Nghasnewydd, Caerdydd, Port Talbot, Torfaen a Phen-y-bont ar Ogwr, wedi'u dylunio i fagu eu hyder a rhwydweithiau cyn gyrfa yn y diwydiannau creadigol.



Johnny Gurnett: 'Gweithiais fel rhedwr llawr yn adran y Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar drydydd tymor Sex Education. Gall fod yn anodd iawn cael eich troed yn y drws, felly fel fy swydd gyntaf un yn y diwydiant, roedd yn gyfle anhygoel i mi. Ers hynny dw i wedi bod yn ddigon ffodus i weithio ar Willow gan Disney, Lost Boys and Fairies gan y BBC, a Rain Dogs gan HBO. Ni fyddwn i lle rydw i heddiw oni bai am y profiad a'r perthnasoedd a gefais wrth weithio gyda Netflix ar Sex Education.'

Sbotolau ar Ddiwylliant Cymru

Hyrwyddo cynnwys yn y Gymraeg

Gyda chynnwys o bedwar ban byd a chydag aelodau mewn 190 o wledydd, mae Netflix yn fan lle gall pobl weld eu hunain wedi'u hadlewyrchu ar y sgrin, yn ogystal â phrofi straeon o ddiwylliannau eraill, gan gynnwys Cymru.

Er enghraifft, yn nhrydydd tymor The Crown, mae Pennod 6 (Tywysog Cymru) bron yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, wrth i'r Tywysog, a bortreadir gan yr actor Josh O'Connor, yn teithio i Aberystwyth i ddysgu'r iaith.

Yn 2023, trwyddedodd Netflix ei deitl Cymraeg cyntaf, Dal y Mellt, yn arddangos y Gymraeg i filiynau o bobl y tu allan i Gymru.

Gwerthfawrogi'r ffordd Gymreig o fyw

Mae rhai cynrychiadau Gymreig yn arddangos Cymru a thalent Gymreig i'r byd. Ond maent hefyd yn aml yn dod â'r byd i Gymru, gan alluogi rhai o'r sêr mwyaf i brofi a hyrwyddo swynion Cymru'n uniongyrchol.

Wrth ffilmio HAVOC, gwelwyd Tom Hardy'n mwynhau'r parc pleserau ar Ynys y Barri, ac yn yr archfarchnad leol yng Nghaerdydd.

Postiodd ei gyd-seren ac enillydd Gwobr yr Academi, **Forest Whitaker lun o Gastell Dinbych-y-pysgod hefyd, gyda'r capswn 'Mwynhau amser yng Nghymru brydferth cyn mynd nôl i'r set.'**



NETFLIX YNG NGHYMRU YN CYNNWYS

THE END OF THE F***ING WORLD

THE WITCHER

SEX EDUCATION

LADY CHATTERLEY'S LOVER

THE CROWN

HAVOC

the
One

←**YOU** vs **WILD**→

